# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

**CC(3)02-07 (p2): 26 Medi 2007**

## Blaenraglen waith

### 1. Diben

Diben y papur hwn yw nodi'r pynciau y gallai'r Pwyllgor eu hystyried yn ystod tymor yr hydref 2007 a thymor y gwanwyn 2008; a hefyd ystyried gwahanol faterion yn ymwneud â gweithdrefnau.

### 2. Argymhellion

Argymhellir bod y Pwyllgor yn ystyried y materion cyffredinol yn Adran 4 a'r materion penodol yn Adran 5; a nodi meysydd i roi blaenoriaeth iddynt, er mwyn i'r Clerc baratoi blaenraglen waith.

### 3. Cefndir

Mewn cyfarfod anffurfiol ar 11 Gorffennaf, trafododd y Pwyllgor bynciau posibl i graffu arnynt; mae rhestr o'r pynciau hyn yn Atodiad A. Yn ystod y cyfarfod hwn, nododd y Pwyllgor ddau bwnc posibl ar gyfer ymchwiliad craffu. Mae gwybodaeth am yr ymchwiliad craffu i'w chael mewn papur arall  CC(3)02-07(p1). Yn ystod trafodaeth anffurfiol, cytunodd y Pwyllgor y byddent yn cyfarfod bob pythefnos i ddechrau; ond y gallai hynny newid yn ôl faint o waith a oedd ar y gweill. Mae'r Rheolwyr Busnes wedi cytuno ar ddyddiadau'r cyfarfodydd; sef 26 Medi, 10 Hydref, 24 Hydref, 7 Tachwedd, 21 Tachwedd a 5 Rhagfyr. Bydd y cyfarfodydd yn dechrau am 9:30am ac yn gorffen erbyn 11:30am.

### 4. Materion Cyffredinol

Mae'n bosibl yr hoffai'r Pwyllgor ystyried a ddylid caniatáu amser yn y rhaglen waith i ymateb i faterion brys; a hoffent graffu'n rheolaidd ar waith unrhyw gyrff neu unigolion penodol: er enghraifft, Gweinidogion, cyrff cyhoeddus perthnasol, cymdeithasau proffesiynol a chynrychiadol. Mae'n bosibl y byddai Aelodau'n hoffi ystyried y materion a ganlyn;

Holi tystion; defnyddio cwestiynau a baratowyd ac a gytunwyd ymlaen llaw;  i ba raddau y dylai tystion cael gwybod am y cwestiynau ymlaen llaw.
Defnyddio cyfarfodydd anffurfiol, neu sesiynau preifat, i gytuno ar ddulliau holi ar gyfer ymchwiliadau craffu.
Ymweliadau a chyfarfodydd y tu allan i Gaerdydd.
Defnyddio grwpiau 'rapporteur' i gasglu tystiolaeth y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol.
Perthynas y Pwyllgor â Gweinidogion; cymerir yn ganiataol y bydd Gweinidogion yn ymddangos gerbron y Pwyllgor i roi tystiolaeth yn ystod Ymchwiliadau penodol; ond mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am gael cyfle mwy cyffredinol i graffu ar waith Gweinidogion.

Gan fod y cylch gwaith yn eang iawn, gallai'r Pwyllgor, maes o law, ystyried sefydlu is-bwyllgorau i ganolbwyntio ar feysydd penodol yn y cylch gwaith. Byddai unrhyw is-bwyllgor yn gweithio yn yr un ffordd â'r Pwyllgor llawn, gan gyfarfod yn gyhoeddus a chyhoeddi papurau a thystiolaeth. Byddai'n rhaid cyflwyno adroddiadau'r is-bwyllgor i'r Pwyllgor llawn, i'w cymeradwyo.

### 5. Materion penodol

Yn ystod tymor yr hydref, tybir y bydd y Pwyllgor am ganolbwyntio ar gasglu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad craffu'n ymwneud ag ariannu cyrff gwirfoddol. Awgrymir bod y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod ar 10 Hydref i egluro polisi presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd â chynrychiolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). Caiff tystion eraill eu gwahodd i gyfarfodydd dilynol, yn unol â rhaglen ddrafft yr ymchwiliad.   Awgrymir y gallai'r Pwyllgor graffu ar waith y Gweinidog Tai yn ystod tymor yr hydref ac ar waith y Gweinidog Treftadaeth yn ystod tymor y gwanwyn (neu fel arall), yng nghyswllt y polisïau perthnasol yng nghylch gwaith y Pwyllgor. Awgrymir y dylid neilltuo lle ar yr agenda ar gyfer **24 Hydref** at y diben hwn. Awgrymir bod lle yn cael ei neilltuo ar yr agenda ar gyfer **7 Tachwedd** i ystyried y gyllideb ddrafft. Disgwylir y caiff y gyllideb ddrafft ei gosod yn fuan ym mis Tachwedd, ac y bydd angen i'r pwyllgorau ymateb yn sydyn.  . Yn ystod toriad yr haf, ysgrifennodd Janet Ryder AC at y Cadeirydd, gan amgáu copïau o ohebiaeth â Chyngor Sir Gwynedd, yn ymwneud ag ariannu gwasanaethau llyfrgell ac yn awgrymu y gallai'r Pwyllgor gynnal ymchwiliad craffu ar y mater. Awgrymir bod y Clerc yn paratoi rhestr o bynciau posibl ar gyfer ymchwiliadau craffu yn y dyfodol, i'r Pwyllgor ei hystyried cyn cwblhau'r ymchwiliad presennol. Gallai hyn fod yn sylfaen i raglen dreigl o ymchwiliadau craffu.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

# Atodiad A

## Pynciau a drafodwyd yn y sesiwn anffurfiol a gynhaliwyd ar 11  Gorffennaf 2007

**Ariannu**

Arian Loteri
Adolygu'r ffordd y caiff gwasanaethau Llyfrgell Cymru eu hariannu

## Tai

Rhaglen adeiladu tai cyngor
Prinder tai cymdeithasol
Tai fforddiadwy
Y strategaeth tai cymdeithasol gan gynnwys yr angen i godi tai cymdeithasol newydd a chyllidebu mewn awdurdodau lleol

## Cyfiawnder cymdeithasol

Camddefnyddio sylweddau - sut i'w atal a gwaith amlasiantaethol
Cyfiawnder Ieuenctid - cosbi pobl ifanc heb eu cadw yn y ddalfa
Strategaeth tlodi plant
Cymunedau yn Gyntaf - Cymunedau nesaf
Swyddfeydd Post - ymateb yr ymgynghoriad i gynlluniau ardal
Carchardai
Digartrefedd anwirfoddol- adolygu'r polisi ar ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc
Cam-drin Domestig
Diogelwch Cymunedol - adeiladu ar gychwyn cadarn
Effaith y newidiadau mewn budd-dal analluogrwydd

## Diwylliant

Ffilm Cymru
Theatr Ieuenctid
Prosiectau ariannu - adolygu'r Gerddi Botaneg Cenedlaethol
Gwerth ychwanegol celf:ardaloedd lleol

## Y Gymraeg

Deddf yr Iaith Gymraeg
Yr hawl i gael Addysg Gymraeg
Adolygu'r ffordd y caiff gwasanaethau Llyfrgell Cymru eu hariannu

## Chwaraeon

Ariannu chwaraeon a chymryd rhan mewn chwaraeon
Y Gemau Olympaidd - manteision i Gymru, mentrau'r llywodraeth
Adroddiad Dringo'n Uwch - yn dilyn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru
Ymgynghori ar y cyfarwyddiadau drafft ar gyfer ariannu Cyngor Chwaraeon Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri
Papur Gwyn Ewropeaidd ar Chwaraeon - cyhoeddwyd 4 Gorffennaf 2007